# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerk@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher –12.02.25 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Keith Carroll (KC), Geraint Micah (GM), Jane Lawrence (JL) Megan Griffiths (MG), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Jenny Warne, Louise Hughes - Cynghorydd Sirol.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim.

3 **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**: cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11.12.24.

Gofynnodd HD fod "£14,405" i gael ei gynnwys ar ddiwedd y paragraff **7c)** er mwyn i'r praesept a hawlir fod yn **wybodaeth gyhoeddus**.

PENDERFYNIAD: Cytuno'n unfrydol i wneud y newid yma ym mharagraff **7c)** â llaw.
Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir wedyn.
**Cynnig:** KC **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** DG

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 11.12.24**

   a) **Hysbysiad Sedd Wag Achlysurol** – Holodd HD a oedd hwn wedi'i dderbyn bellach?
   Cadarnhaodd y Clerc nad oedd wedi derbyn dim, ac ei bod wedi anfon e-bost i atgoffa Cyngor Gwynedd am hyn.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn**:

   a) **Gohebiaeth yn ymwneud â chau ffyrdd, Friog A493** - Nodwyd.
   b) **Derbynneb gan Y Ganolfan**
   Dywedodd y Clerc fod taliad am 24/25 wedi ei wneud i'r Trysorydd newydd.
   c) **E-bost oddi wrth John Hackney**
   Derbyniwyd e-bost ynglŷn â difrod a achoswyd gan eiddew yn tyfu ar rhan o'i wal derfyn gyda'r cae chwarae.
   Nododd hyn pan yn gosod ffens newydd yn ei ardd.
   Gofynodd Mr Hackney i'r Cynghorwyr drefnu i gael gwared â'r holl eiddew a'r gwreiddiau, ochr y cae chwarae.

GWEITHREDU: Cynghorwyr i adolygu'r rhan o'r wal lle mae difrod wedi digwydd.

6. **Materion Cynllunio**:

   a) **NP5/69/56N**: Newidiadau i fynediad cerbydau – Parc Gwyliau Sunbeach
   b) **NP5/69/AD56Q**: Caniatâd hysbyseb (polion fflag ac arwyddion ôl-oleu) – Parc Gwyliau Sunbeach

PENDERFYNIAD: **a)** a **b)** yn cael eu cefnogi gan y Cyngor ar yr amod nad ydynt yn amharu ar ddiogelwch y ffordd.
GWEITHREDU: Clerc i ymateb i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   c) **NP5/69/56P**: Estyniad, addasiadau a dymchwel yr estyniad ar "Seaview Bungalow" – Parc Gwyliau Sunbeach.

PENDERFYNIAD: Cefnogi'r cais ar y sail y bydd yr eiddo nawr yn cael ei ddefnyddio eto ar gyfer llety, a bydd y gwaith yn gwella cyflwr/gwedd yr adeilad.

7. **Adroddiad Ariannol:**

a) **Adroddiadau Ariannol ar gyfer Rhagfyr 2024 a Ionawr 2025**

**PENDERFYNIAD:** Cytunwyd yn unfrydol fod y cyfrifon yn gywir ac fe'u cymeradwywyd.
**Cynnig:** HD **Eilydd:** IW **Arwyddwyd:** DG.

b) **Taliadau** – Cyflog a chosta'r Clerc am Mis Ionawr. Ad-daliad i HD o £29.98 (anfoneb Go Hardware)

**PENDERFYNIAD:** Arwyddwyd cytundeb unfrydol o daliadau a sieciau.

**GWEITHREDU:** Clerc i wneud y taliadau.

c) **Rhoddion Blynyddol**
Trafod ceisiadau am roddion a dderbyniwyd a thalu'r rhoddion blynyddol rheolaidd.

**PENDERFYNIAD:** Cytuno'n unfrydol i'r rhoddion canlynol gael eu gwneud ac arwyddo sieciau:
Y Ganolfan - Llwyngwril = £1,000.00
Mynwentydd Llangelynnin = £500.00
Ambiwlans Awyr Cymru = £250.00
URDD Gobaith Cymru = £50.00
Swyddfa NFU (Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd) = £50.00.

**GWEITHREDU:** Clerc i wneud y taliadau.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

**a.** Dywedodd MG am broblem gyda charthffosiaeth amrwd ar y llain o dir yn perthyn i Mr Mei Black ar Ffordd yr Orsaf. Roedd nifer o gwynion wedi'u gwneud i Dŵr Cymru, ac roedden nhw wedi mynychu a datrys y mater. Fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod yn gollwng eto o fan gwahanol, tro hwn yn nes at yr afon.
Mae'r broblem yn parhau er gwaethaf nifer o gwynion.
**GWEITHREDU:** Clerc i anfon llythyr yn syth i'r Adran Garthffosiaeth Dwr Cymru a Louise Hughes i'w chopio mewn.

**b.** Cadarnhaodd KC ei fod bellach wedi newid y pren oedd wedi torri ar fainc Rhoslefain a'i fod wedi ail-baentio'r ddwy fainc.

**c.** Dywedodd GE fod wal ochr y mor o'r bont goch yn gwyro, gyda'r potensial i ddisgyn i'r ffordd.
**GWEITHREDU:** Cytunodd pawb y dylid anfon llythyr at Adrian Williams, Cyngor Gwynedd.

**d.** Cododd GE y mater o gynnal a chadw'r meinciau a dywedodd fod angen glanhau, sandio a staenio pob mainc (ac eithrio'r fainc lâs yn y cae chwarae gan nad yw'n perthyn i'r Cyngor Cymuned).
**GWEITHREDU:** Clerc i holi yn lleol os oedd unrhyw gontractwr lleol yn fodlon gwneud y gwaith.

**e.** Soniodd GE fod yna dwrch daear yn y cae chwarae yn Llwyngwril eto.
**GWEITHREDU:** GM i ofyn i Grace i weld os gall hi helpu, ond mae'n annhebygol y bydd hynny tan ar ôl hanner tymor.

**f.** Daeth JL â'r ddau ddiffibriliwr a roddwyd gan yr Ymatebwyr Cyntaf i mewn. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â phrynu bocs(iau) a'u gosod ar bolion. Mae DG a JW wedi cymryd cyfrifoldeb am y ddiffibriliwyr. Dywedodd JL fod Chris Lawrence wedi checio'r defibs yn ddiweddar, a bod y batri yn isel yn y defib yn Y Ganolfan. Am y tro, awgrymwyd defnyddio un o'r batris a roddwyd iddynt - a oedd â hyd oes arall o ddwy flynedd arno - ac i brynu batri arall pan oeddem yn barod i osod y defibs a gafwyd wedi fel rhodd. Cytunwyd y dylid gosod y defibs yn Gwastadgoed ac ar y "Green", Godre'r Gaer. Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor Cymuned fod rhodd o £250.00 wedi ei dderbyn gan yr Ymatebwyr Cyntaf tuag at Cronfa'r Diffibriliwyr, ac anfonir llythyr i ddiolch iddynt.

Gan fod arian dros ben yn y cyfrif banc – cynigiodd KC y dylai unrhyw ddiffyg ar gyfer prynu'r ail flwch gael ei wneud i fyny o'r cronfeydd hynny, ac y dylai'r Cyngor Cymuned edrych ar brynu mainc newydd i'r pentref o'r cronfeydd hefyd.
Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

**g.** Soniodd HD ei fod yn parhau i ymchwilio i wneud Ffram Coeden Nadolig Alwminiwm, a gofynnodd am ganiatâd i brynu rhai polion sgaffaldiau alwminiwm am y swm o £88.00. Cymeradwywyd hyn, a bydd yr anfoneb yn cael ei darparu i'r Cyngor Cymuned ar gyfer ad-dalu ac adennill unrhyw TAW.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 12.03.25 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril**

Arwyddwyd
Cadeirydd ............................................................ Dyddiad 9/4/25